



Ymyriadau ar gyfer lliniaru effeithiau digwyddiadau diweithdra torfol: Cwmpas ystwyth o'r llenyddiaeth

Lluniwyd gan:

Dr Chukwudi Okolie, Dadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth Uwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Claire Morgan, Uwch-ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Salina Khatoun, Uwch-ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyflwyniad	2
Amcanion	3
Y Negeseuon Allweddol	3
Canfyddiadau	4
Opsiynau ar gyfer gwaith pellach.....	7
Dulliau	8
Cyfeiriadau	10
Atodiad A: Dogfen dechnegol.....	11
Atodiad B: Atodiad Chwiliadau	14
Atodiad C: Echdynnu data	17

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau chwiliad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi tystiolaeth am ddigwyddiadau diweithdra torfol. Bydd y dystiolaeth o'r adolygiad cwmpasu ystwyth hwn yn cael ei defnyddio i gefnogi'r grŵp ymateb a ffurfiwyd i fynd i'r afael â'r cyhoeddiad bod diswyddiadau torfol wedi'u cynllunio yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot. Cynhaliwyd adolygiad naratif yn 2016 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith yn amlinellu dull gweithredu iechyd cyhoeddus o ymateb i ddigwyddiadau diweithdra torfol. Roedd yr adolygiad hwnnw'n ceisio ateb dau gwestiwn ymchwil:

1. Pa effaith mae diswyddiadau torfol yn ei chael ar gymunedau?
2. Pa ymyriadau sy'n effeithiol ar gyfer lliniaru effeithiau digwyddiadau diweithdra torfol?

Yn ôl Davies et al (2017), mae effaith digwyddiadau diweithdra torfol ar gymunedau yn cynnwys; mwy o gystadleuaeth am swyddi, colli cysylltiadau cymunedol a rhwydweithiau cymdeithasol, straen ar gymunedau sy'n darparu cefnogaeth i weithwyr, straen ar fusnesau lleol, a dibrisio cartrefi mewn ardaloedd yr effeithir arnynt. Mae'n annhebygol y byddai gwybodaeth newydd am effeithiau diswyddiadau torfol ar gymunedau wedi cael ei chyhoeddi ers yr adolygiad gwreiddiol. Bydd y gwaith a amlinellir yma yn diweddarau'r adolygiad hwn, gan ganolbwyntio ar yr ail gwestiwn ymchwil.

Bydd y gwaith a amlinellir yma yn diweddarau'r adolygiad hwn, gan ganolbwyntio ar yr ail gwestiwn ymchwil. Mae'n annhebygol y byddai gwybodaeth newydd am effeithiau diswyddiadau torfol ar gymunedau wedi cael ei chyhoeddi ers yr adolygiad gwreiddiol.

Cynhaliwyd chwiliad cwmpasu o'r llenyddiaeth i baratoi ar gyfer y gwaith hwn. Ni nodwyd unrhyw adolygiad systematig a oedd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn ymchwil, felly penderfynwyd canolbwyntio ar nodi'r holl dystiolaeth oedd ar gael ar ddigwyddiadau diweithdra torfol, waeth beth fo'r fethodoleg, gan ddefnyddio dull cwmpasu ystwyth.

Y canfyddiadau a'r casgliadau sydd wedi'u cynnwys yw rhai awduron y ffynonellau ac nid dehongliad gan y Gwasanaeth Tystiolaeth. Mae ffactorau sy'n berthnasol i ateb y cwestiwn uchod a nodwyd o'r astudiaeth sylfaenol a'r astudiaeth eilaidd a gafodd eu cynnwys wedi'u dethol a'u crynhoi'n fyr yn yr adroddiad hwn. Os yw ffactor penodol o ddiddordeb, fe'ch cynghorir i ddarllen y ffynonellau o'r man lle cawsant eu cymryd yn fwy manwl. Os ydych yn defnyddio unrhyw astudiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cwmpas hwn i lywio polisi, mae'n bwysig ystyried cyffredinolrwydd y canfyddiadau i'ch cyd-destun chi.

Mae'n annhebygol y byddai'r chwiliad a gynhaliwyd ar gyfer y cwmpasu hwn wedi nodi'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r pwnc hwn, gan nad oedd chwiliadau yn gynhwysfawr, ond yn hytrach roeddent yn canolbwyntio ar nodi adolygiadau systematig cadarn ac astudiaethau sylfaenol o nifer cyfyngedig o ffynonellau.

Amcanion

Cynnal adolygiad cwmpasu ystwyth i nodi tystiolaeth a gyhoeddwyd sy'n mynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol:

1. Pa ymyriadau sy'n effeithiol ar gyfer lliniaru effeithiau digwyddiadau diweithdra torfol?

Y Negeseuon Allweddol

- Mae prinder ymchwil academiaidd ar y pwnc hwn – gyda rhai canlyniadau'n cael eu hadrodd gan un astudiaeth yn unig.
- Dim ond chwe ffynhonnell dystiolaeth a ganfuwyd, ac roedd pedwar ohonynt yn cynnwys gwerthusiadau o ymyriadau sy'n berthnasol i'r pwnc.
- Roedd y ffynonellau dystiolaeth a oedd wedi'u cynnwys yn canolbwyntio'n bennaf ar ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau iechyd meddwl neu ganlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
- Ni chafodd rhai o boblogaethau'r astudiaethau, er eu bod yn ddi-waith ac o oedran gweithio, eu disgrifio'n benodol fel rhai sydd wedi cael eu heffeithio (neu mewn perygl o gael eu heffeithio) gan ddigwyddiad diweithdra torfol.
- Nododd astudiaeth ansoddol yn y DU a oedd yn asesu effaith ymyrraeth iechyd meddwl yn seiliedig ar bêl-droed a sefydlwyd mewn ymateb i ddiswyddiad torfol gweithwyr dur yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, amrywiaeth o fanteision defnyddio diwylliant pêl-droed fel mecanwaith ar gyfer ymyriadau a gynlluniwyd i adeiladu gwytnwch iechyd meddwl mewn gweithwyr sydd wedi'u diswyddo.
- Mae astudiaeth yn Awstralia yn gwerthuso'r broses o weithredu cronfa polisi llywodraeth ffederal gyda'r nod o gynorthwyo gweithwyr dur wedi'u diswyddo i adennill cyflogaeth, adroddwyd bod hyd at hanner wedi'u cyflogi 18 mis ar ôl cael eu diswyddo.
- Mae dystiolaeth o un adolygiad systematig yn awgrymu y gallai hyfforddiant sgiliau swyddi dwys tymor byr (ymyriadau 'clwb swyddi') fod yn effeithiol wrth leihau symptomau iselder hyd at ddwy flynedd ar ôl yr ymyrraeth mewn pobl ddi-waith, yn enwedig y rhai sydd â risg uchel o iselder.
- Dangosodd ymyriadau therapi ymddygiadol gwybyddol dystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd ar iselder.
- Roedd y dystiolaeth oedd ar gael i gefnogi'r defnydd o gyngor dros y ffôn ar ddyledion, ysgrifennu mynegiannol, delweddaeth dan arweiniad, a

hyfforddiant cymhwysedd emosiynol ar gyfer gwella canlyniadau iechyd meddwl yn gyfyngedig.

- Gall ymyriadau hunan-gadarnhau byr, seicolegol ar sail gwerthoedd fod yn effeithiol ar gyfer gwella canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth – fel llwyddiant ailgyflogaeth, amser sydd ei angen i ddod o hyd i gyflogaeth newydd, a nifer y cynigion am swyddi a dderbyniwyd – mewn unigolion sy'n ddi-waith ers cyfnod maith neu ers yn ddiweddar.
- Adroddodd dau adolygiad naratif brofiadau cenedlaethol a rhyngwladol o bolisiau a strategaethau gyda'r nod o gynorthwyo gweithwyr sydd wedi'u dadleoli, a rhoddodd argymhellion ar gyfer datblygu rhaglenni llwyddiannus mewn ymateb i ddigwyddiadau pontio'r diwydiant.

Canfyddiadau

Roedd chwe ffynhonnell o dystiolaeth yn gymwys i'w cynnwys yn yr adolygiad cwrpasu ystwyth hwn - tair astudiaeth sylfaenol a thair astudiaeth eilaidd. O'r tair astudiaeth eilaidd, roedd un yn adolygiad systematig tra bod y ddwy arall yn adolygiadau llenyddiaeth. Roedd y tair astudiaeth sylfaenol a nodwyd yn cynnwys un hap-dreial dan reolaeth (RCT), un astudiaeth ansoddol, ac un astudiaeth achos yn defnyddio dull hydredol a dulliau cymysg yn ei ddadansoddiadau.

Canolbwyntiodd dwy astudiaeth sylfaenol ar ymyriadau a gafodd eu cynllunio a'u gweithredu'n benodol mewn ymateb i ddigwyddiadau diweithdra torfol. Cynhaliwyd astudiaeth Dixon et al (2019) yn y DU ac roedd yn gwerthuso effaith ymyrraeth iechyd meddwl sy'n seiliedig ar bêl-droed. Cynhaliwyd astudiaeth O'Brien a Burrows (2019) yn Awstralia ac roedd yn asesu effaith polisiau llywodraeth ffederal gyda'r nod o helpu gweithwyr wedi'u diswyddo i gael eu hailgyflogi. Dyma oedd y mesurau canlyniad: gwydnwch iechyd meddwl, creu cyflogaeth, a statws cyflogaeth ar ôl colli swydd.

Roedd dwy astudiaeth arall (un adolygiad systematig ac un astudiaeth sylfaenol) yn canolbwyntio ar ymyriadau gyda'r nod o leihau effaith diweithdra cyffredinol. Roedd yr adolygiad systematig (Moore et al 2017), yn canolbwyntio ar ymyriadau i leihau effaith diweithdra a chaledi economaidd ar iechyd meddwl yn y boblogaeth gyffredinol, ac roedd yn cynnwys 11 o hap-dreialon dan reolaeth o ymyriadau iechyd cyhoeddus neu o ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o liniaru'r effeithiau hyn. Gwerthusodd yr astudiaeth sylfaenol (Pfrombeck et al 2023) ymyriad hunan-gadarnhau byr sy'n seiliedig ar werthoedd gyda'r nod o gynyddu'r siawns o ailgyflogaeth ar ôl colli swydd ac yn ystod diweithdra. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon ar hyd a lled sawl gwlad ym mhob cwr o'r byd. Dyma oedd y mesurau canlyniad: llwyddiant ailgyflogaeth, nifer y cynigion swyddi, ac amser sydd ei angen i ddod o hyd i gyflogaeth newydd.

Roedd y ddwy yn cynnwys adolygiadau llenyddiaeth (Jobs Queensland 2018 a Phillimore et al 2019) yn canolbwyntio ar effeithiau pontio diwydiant ar weithwyr sydd wedi'u dadleoli a strategaethau i gefnogi'r gweithwyr hyn. Roedd y ddau

adolygiad llenyddiaeth yn benodol i gyd-destun Awstralia ond nid oeddent yn adrodd gwerthusiadau o ymyriadau penodol. Yn hytrach, doedd y ddwy astudiaeth yn disgrifio rhaglenni a gyflwynwyd yn flaenorol i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u dadleoli, yn ogystal ag elfennau allweddol rhaglenni llwyddiannus.

Mae crynodeb manwl o'r ffynonellau tystiolaeth sydd wedi'u cynnwys i'w gweld yn Nhablau 2 a 3.

Ymyriadau a gynlluniwyd ac a weithredwyd mewn ymateb i ddigwyddiad diweithdra torfol

Ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl

Ymyrraeth iechyd meddwl yn seiliedig ar bêl-droed

Roedd yr astudiaeth ansoddol gan Dixon et al (2019) yn asesu effaith ymyrraeth iechyd meddwl yn seiliedig ar bêl-droed (Redcar and Cleveland Boot Room), a sefydlwyd mewn ymateb i ddiswyddo torfol gweithwyr dur yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gyda'r nod o feithrin gwytnwch iechyd meddwl. Hwyluswyd y Boot Room gan Hwrwyddwr Iechyd Cymunedol, ac fe'i sefydlwyd heb unrhyw sylfeini strwythurol penodol, dim ond fel lle i gwrdd yn enw pêl-droed. **Trwy drafodaethau rhyngweithiol gydag aelodau'r Boot Room, dangosodd yr astudiaeth hon y canlynol: (a) bod iaith pêl-droed a hunaniaeth a rennir yn bwysig ar gyfer cychwyn a chynnal ymgysylltu yn y Boot Room; (b) bod cymorth gan gymheiriaid a mentora ynghyd â gweithgareddau a arweinir gan aelodau yn gynhwysion gweithredol y Boot Room; a (c) bod y Boot Room yn gyfrwng effeithiol ar gyfer adeiladu gwytnwch iechyd meddwl.** Yn ogystal, er nad oedd cyflogaeth yn ganolbwynt allweddol y Boot Room, mae'n debyg bod 15 aelod wedi dod o hyd i gyflogaeth yn ystod y rhaglen. Roedd yr aelodau yn credu'n gryf bod hybu hyder (trwy weithgareddau a drefnwyd yn y Boot Room) yn cyfrannu'n fawr at y llwyddiannau hyn sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Polisiau llywodraeth ffederal

Fe wnaeth O'Brien a Burrows (2019) werthuso effeithiolrwydd pecyn \$ 40 miliwn llywodraeth ffederal gyda'r nod o greu cyfleoedd swyddi cynaliadwy a helpu gweithwyr dur wedi'u diswyddo i gael ailgyflogaeth yn dilyn digwyddiad diweithdra torfol. Defnyddiodd yr astudiaeth achos hon ddull hydredol a dulliau cymysg i ddadansoddi effeithiolrwydd y polisi. **Dangosodd y canlyniadau fod 40% o'r 92 o ymatebwyr a holwyd wedi eu cyflogi chwe mis ar ôl colli swydd, ond roedd cyfraddau diweithdra yn cynyddu gydag oedran hŷn. Cynyddodd cyfraddau cyflogaeth i 51% 18 mis ar ôl colli swydd, gyda gwelliannau mewn cyfraddau diweithdra gan y grwpiau oedran hŷn.**

Ymyriadau'n ymwneud â diweithdra cyffredinol yn fras

Ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl

Gwerthusodd yr adolygiad systematig gan Moore et al (2017) effeithiolrwydd ymyriadau gyda'r nod o leihau effeithiau diweithdra a chaledi economaidd ar iechyd meddwl yn y boblogaeth gyffredinol. Adroddwyd bod yr holl gyfranogwyr yn yr 11 o astudiaethau sylfaenol a oedd wedi'u cynnwys yn ddiwaith, gyda chyfnodau diweithdra cymedrig yn amrywio o 2.3 i 33 mis. Ni ddisgrifiwyd cyfranogwyr yr astudiaethau yn benodol fel rhai sydd wedi cael eu heffeithio (neu mewn perygl o gael eu heffeithio) gan ddigwyddiad diweithdra torfol. Dyfarnwyd bod pob astudiaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn risg uchel o ragfarn. Dangosodd tystiolaeth o bum treial fod **ymyriadau hyfforddiant sgiliau swyddi dwys byr (1 i 2 wythnos) ar gyfer pobl ddi-waith yn effeithiol ar gyfer lleihau symptomau iselder hyd at 2 flynedd ar ôl ymyrraeth; gydag effeithiau cryfaf ymhlith y rhai sydd mewn mwy o berygl o iselder ($p = 0.01$).** Mewn cyfranogwyr risg uchel cafodd sgorau iselder eu lleihau ar 6 wythnos (MD: -0.26 , 95% CI -0.48 i -0.04 ; $p = 0.01$), 4 mis (MD: -0.36 , 95% CI -0.59 i -0.13 ; $p = 0.001$) a 28 mis (MD: -0.25 , 95% CI -0.50 i -0.0 ; $p = 0.01$). Dangosodd ymyriadau therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) dystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd ar iselder (dau dreial). Roed effeithiolrwydd pedwar ymyrraeth arall (Cyngor dros y ffôn ar ddyledion; ysgrifennu mynegiannol; delweddaeth dan arweiniad; a hyfforddiant cymhwysedd emosiynol) a aseswyd mewn un hap-dreial dan reolaeth yr un, yn dweud bod y dystiolaeth o fuddion yn gyfyngedig.

Ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Ymyriadau seicolegol

Archwiliodd un hap-dreial dan reolaeth a oedd yn cynnwys dau dreial (Pfrombeck et al 2023) a yw ymyrraeth hunan-gadarnhau byr, seicolegol ar sail gwerthoedd yn effeithiol o ran gwella llwyddiant unigolion sy'n ddi-waith yn barhaus ac yn ddiweddar wrth chwilio am swyddi. Dangosodd y canlyniadau fod **defnyddio ymyrraeth hunan-gadarnhau 15 munud wedi cynyddu canlyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar ôl pedair wythnos gan gynnwys y tebygolrwydd o ddod o hyd i gyflogaeth newydd [Astudiaeth 1 ($b = 0.872$, $P = 0.035$, OR = 2.392); Astudiaeth 2 ($b = 1.241$, $P = 0.012$, OR = 3.461)], yr amser sydd ei angen i ddod o hyd i gyflogaeth newydd [$F(1,322) = 7.27$, $P = 0.007$], a nifer y cynigion swydd a dderbyniwyd [(Astudiaeth 1: $b = 0.777$, $P = 0.002$, OR = 2.175; Astudiaeth 2: $b = 0.400$, $P = 0.024$, OR = 1.492)].** Roedd yr ymyrraeth yr un mor effeithiol i unigolion o dan 50 oed a thros 50 oed, ac ar gyfer unigolion sy'n ddi-waith yn barhaus neu'n ddiweddar.

Astudiaethau ychwanegol o ddiddordeb posibl

Disgrifiodd yr adolygiad llenyddiaeth gan Jobs Queensland (2018) effaith pontio diwydiant ar y gweithlu, y cyflenwad sgiliau a'r galw gan ganolbwyntio ar nodi a diffinio 'arferion gorau'. Awgrymodd y papur hwn y dylid ystyried wyth ffactor wrth ddatblygu ymateb unigol, wedi'i deilwra i ddigwyddiad pontio'r diwydiant:

1. Amser

2. Cynllunio rhagddyfalus
3. Llywodraethu a lledaenu gwybodaeth
4. Canolbwyntio ar yr ardal yr effeithiwyd arni
5. Cyfalaf dynol
6. Arallgyfeirio economaidd
7. Cydgysylltu lleol a rheoli achosion
8. Gwerthusiad

Yn yr un modd, roedd yr adolygiad llenyddiaeth gan Phillimore et al (2019) yn adrodd ar brofiad cenedlaethol a rhyngwladol mewn polisïau a mentrau gyda'r nod o gynorthwyo gweithwyr sydd wedi'u dadleoli, yng nghyd-destun newid technolegol cyflym, ac edrychodd ar sut roedd Awstralia yn cymharu â gweddill y byd wrth ymdrin â'r mater o ddadleoli gweithwyr. Yn ogystal â'r wyth ffactor y dylid eu hystyried wrth ddatblygu ymateb unigol, wedi'i deilwra i ddigwyddiad pontio'r diwydiant (gweler uchod), awgrymodd yr adolygiad hwn bedwar maen prawf arall sy'n hanfodol i lwyddiant:

1. Pwyllgorau/cyrff teirochrog i gynllunio a goruchwyllo mentrau
2. Cyfuno diswyddiadau
3. Gwasanaethau pwrpasol ar gyfer rheoli lles gweithwyr yr effeithir arnynt
4. Rheoleiddio darparwyr gwasanaethau swyddi yn llymach

Opsiynau ar gyfer gwaith pellach

Mae'n bosibl na fydd ein chwiliadau wedi nodi'r holl dystiolaeth (eilaidd a sylfaenol) sy'n berthnasol i'r pwnc hwn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar brinder astudiaethau sylfaenol cyhoeddus a nodwyd yn yr adroddiad hwn, prin yw'r cyfle i'r Gwasanaeth Tystiolaeth wneud rhagor o waith ar y pwnc hwn.

Dulliau

Mae Atodiad A (atodiad technegol) yn darparu amlinelliad o'r sail resymegol a'r dulliau cyffredinol a ddefnyddir i ddatblygu cwmpasau ystwyth. Mae'r fethodoleg ganlynol yn amlinellu'r dull a wnaed a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad cwmpasu ystwyth hwn.

Gan fod hwn yn bwnc eang, roedd y cwmpasu ystwyth hwn wedi'i gyfyngu i gynnwys dim ond adolygiadau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio dulliau penodol ac atgynhyrchadwy o chwilio systematig, arfarniad beirniadol o ansawdd a synthesis y llenyddiaeth sylfaenol ar y pwnc. Mae hon yn ffordd dderbyniol o asesu'r rhan fwyaf o'r sylfaen dystiolaeth yn gyflym, ac er nad yw'n bwriadu nodi pob cyhoeddiad ar bwnc, byddai'n golygu y gellir cynhyrchu trosolwg. Fodd bynnag, nid oedd chwiliad cwmpasu cychwynol o'r llenyddiaeth yn nodi unrhyw dystiolaeth eilaidd sy'n mynd i'r afael â'r pwnc ac felly penderfynwyd canolbwytio ar nodi'r holl dystiolaeth a oedd ar gael ar ddigwyddiadau diweithdra torfol.

Ffynonellau data: Edrychwyd ar ddeunaw ffynhonnell dystiolaeth ddibynadwy sy'n cadw at egwyddorion cadarn adolygu systematig¹. Edrychwyd drwy waith Medline, ysgolhaig Google, a Scopus am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan ddefnyddio termau chwilio a strategaethau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer pob ffynhonnell ddata. Cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio cyfuniad o'r termau canlynol:

- “Gweithwyr sydd wedi'u lleihau, wedi'u diswyddo neu wedi'u dadleoli”
- “Diweithdra neu ddiswyddo torfol neu gau ar raddfa fawr”
- “Diwydiant neu weithgynhyrchu neu ddiwydiant dur neu gyflogwr mawr”

Mae rhestr lawn o'r adnoddau a chwiliwyd wedi'u cynnwys yn atodiad B (atodiad chwilio).

Detholiad o astudiaethau: Aseswyd astudiaethau sylfaenol ac eilaidd i'w cynnwys. Fe wnaeth dau adolygydd sgrinio'r astudiaethau'n annibynnol am berthnasedd ar lefel teitl, ar lefel crynodeb ac ar lefel testun llawn yn erbyn y meini prawf cynhwysiant a amlinellir yn nhabl 1.

Echdynnu data: Lle y bo'n bosibl, echdynnwyd data yn adrodd nodweddion perthnasol o'r adolygiadau a oedd wedi'u cynnwys i dabl echdynnu data (tabl 2). Gwiriodd ail adolygydd y data a echdynnwyd. Datryswyd anghytundebau ar unrhyw gam trwy drafod gyda thrydydd adolygydd.

Asesiad ansawdd: Cafodd yr holl astudiaethau sydd wedi'u cynnwys eu harfarnu'n feirniadol am eu hansawdd. Aeth un adolygydd ati i werthuso'n feirniadol yr holl astudiaethau a oedd wedi'u cynnwys gan ddefnyddio rhestrau gwirio ar gyfer yr

¹ Dilyn egwyddorion adolygu craidd systematig: strategaeth chwilio gynhwysfawr a datganedig, dewis ffynonellau yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol, asesu'r risg o duedd o ffynonellau sylfaenol a/neu mae'n fethodoleg a ddatblygwyd gan gorff arbenigol e.e. NICE. Am restr lawn o ffynonellau a chwiliwyd, cyfeiriwch at adran Ffynonellau a chwiliwyd o'r adroddiad.

astudiaeth wedi'u cynllunio'n briodol gan JBI a CASP. Gwiriodd ail adolygydd yr astudiaethau a werthuswyd am gysondeb.

Tabl 1: Meini Prawf Cynhwysiant	
Cwestiwn yr adolygiad	
Pa ymyriadau sy'n effeithiol ar gyfer lliniaru effeithiau digwyddiadau diweithdra torfol?	
Cyfranogwyr	Poblogaethau oedran gweithio sydd wedi cael eu diswyddo neu sydd mewn perygl o ddigwyddiad diweithdra torfol, ac sy'n byw yng ngwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (cyn 1974)
Ymyrraeth	Ymyriadau i liniaru effeithiau digwyddiad diweithdra torfol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau.
Cymhariaeth	Amherthnasol
Canlyniadau	Unrhyw fesurau hunangofnodedig neu wrthrychol o iechyd corfforol a meddyliol neu iechyd meddwl, neu ymddygiadau iechyd. Unrhyw effeithiau tymor byr neu hirdymor ar unigolion, teuluoedd neu'r gymuned.
Ystyriaethau Eraill yr Astudiaeth	
Lleoliad – y cyfan Cynllun yr astudiaeth – tystiolaeth sylfaenol ac eilaidd Iaith cyhoeddi – Saesneg Terfyn dyddiad – ers 2016 Gwledydd – OECD (cyn 1974)	

Cyfeiriadau

Davies, A., Homolova, L., Grey, C. N., & Bellis, M. A. (2017). Mass Unemployment Events (MUEs): Prevention and Response from a Public Health Perspective. Public Health Wales.

Dixon, K., Belshaw, D., Johnson, P., & Flynn, D. (2019). Using football cultures as a vehicle to improve mental health in men: The case of the Redcar and Cleveland boot room. *Sport in Society*, 22(7), 1258-1274.

Jobs Queensland. (2018). Supporting workforces during industry transition: Key elements for success. Literature review. State of Queensland.

Moore, T. H. M., Kapur, N., Hawton, K., Richards, A., Metcalfe, C., & Gunnell, D. (2017). Interventions to reduce the impact of unemployment and economic hardship on mental health in the general population: a systematic review. *Psychological medicine*, 47(6), 1062-1084.

O'Brien, M., & Burrows, S. (2019). Assessing the effectiveness of regional policy responses to mass redundancies: the case of the Illawarra region, Australia. *Economic Papers: A journal of applied economics and policy*, 38(2), 144-155.

Pfrombeck, J., Galinsky, A. D., Nagy, N., North, M. S., Brockner, J., & Grote, G. (2023). Self-affirmation increases reemployment success for the unemployed. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, 120(37), e2301532120.

Phillimore, J., Fitzgerald, S., & Galantino, M. (2019). Assisting workers displaced by technological and structural change. School of Management Curtin University.

Atodiad A: Dogfen dechnegol

MAE ADOLYGIADAU CWMPASU ystwyth yn drosolygon systematig a chyflym o'r dystiolaeth ar bwnc sy'n cael eu gyrru gan y rhanddeiliaid. Maent yn darparu trosolwg tryloyw a dibynadwy o'r dirwedd dystiolaeth ac maent yn ddefnyddiol er mwyn:

- sefydlu pa lenyddiaeth sy'n bodoli
- helpu i fireinio cwestiwn eang
- nodi bylchau yn y dystiolaeth
- llywio gwaith pellach gan y rhanddeiliaid.

Mae'r adolygiadau cwmpasau'n defnyddio proses o hyd at dri cham, gan ddibynnu ar ba dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y pwnc. Mae symud ymlaen o'r naill gam i'r llall yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r rhanddeiliaid.

1. Y cam cyntaf yw tynnu ar dystiolaeth adolygiadau systematig bresennol sydd wedi'u nodi mewn ffynonellau dibynadwy² (ffynonellau tystiolaeth eilaidd sy'n defnyddio methodolegau cadarn) lle mae hyn yn bodoli. Nid yw'r Gwasanaeth Tystiolaeth yn cynnal gwerthusiad beirniadol o'r adolygiadau hyn.
2. Os nad oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, wedi'i nodi ar hyn o bryd, cynhelir chwiliad syml iawn yn Medline gan ddefnyddio allweddeiriau yn unig i ganfod budd cynnal chwiliadau pellach mewn ystod ehangach o gronfeydd data. Bydd crynodeb o ganlyniadau'r chwiliad (h.y., nifer, cynllun yr astudiaeth, perthnasedd ac ati) yn cael ei ddarparu yn y cwmpas ystwyth i helpu i hysbysu rhanddeiliaid.
3. Lle nad oes fawr ddim tystiolaeth eilaidd y gellir ymddiried ynnddi yn bodoli, os o gwbl, ac os yw'r chwiliad Medline a gynhaliwyd yng ngham 2 yn nodi ei fod o fudd, gellir ymestyn y cwmpas, ar gais y rhanddeiliad, i gynnwys chwiliad am adolygiadau systematig neu lenyddiaeth sylfaenol yn Google Scholar, Scopus neu Medline, fel y bo'n briodol. Yn y cam hwn ac unrhyw gam dilynol, byddai angen asesu ansawdd y dystiolaeth a nodwyd.
4. Nid yw astudiaethau sylfaenol yn cael eu cynnwys fel arfer, oni bai bod ychydig neu ddim adolygiadau systematig yn cael eu nodi yng ngham rhagarweiniol cam 1, neu fod rhanddeiliaid yn gofyn am hynny yn dilyn gwaith cynharach y maent wedi'i wneud.

Ystyriaethau

- Nid yw'r cwmpas yn ceisio nodi'r holl dystiolaeth ar bwnc penodol.
- Ni fydd pob canlyniad a nodir yn y llenyddiaeth o reidrydd yn cael ei
- gynnwys yn yr adroddiad cwmpasu hwn am nifer o resymau, gan gynnwys:
 - Mae'r canlyniadau a gynhwysir yn y cwmpas wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n

² Darperir y ffynonellau ar restr y Gwasanaeth Tystiolaeth o'r adnoddau tystiolaeth eilaidd y gellir ymddiried ynnddynt yn Nhabl 1

- berthnasol i gwestiwn gwreiddiol y rhanddeiliaid.
- Mae'n bosibl nad yw canlyniadau wedi'u hadrodd yn y ffynonellau eilaidd, er y gallen nhw fodoli yn y llenyddiaeth sylfaenol. Gan hynny, fydd y canlyniadau hyn ddim yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad cwmpasu.
- Nid yw canfyddiadau mewn adolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn cael eu hasesu i weld a oes modd eu cyffredinoli yn y cyd-destun Cymreig. [Byddai hynny'n broses gymhleth gan fod tystiolaeth eilaidd yn debygol o gynnwys astudiaethau o nifer o wledydd.] Byddai angen i'r rhanddeiliaid ystyried hyn os ydyn nhw'n defnyddio tystiolaeth eilaidd i lywio polisi ac arferion. Gellid gofyn am waith ychwanegol os oes ei angen.
- Mae'r cwmpas yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau awduron y ffynonellau. Os oes elfen benodol o'r adroddiad o ddiddordeb arbennig, mae'n ddoeth darllen y ffynhonnell/ffynonellau y mae'n tarddu ohonyn nhw yn fanylach, gan y bydd hyn yn rhoi mwy o gyd-destun. Gellir gwneud gwaith pellach ar feysydd penodol os oes ei angen.
- Darperir hyperddolenni i'r dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y tabl crynhoi data. Mewn llawer o achosion, mae'r dystiolaeth honno ar gael am ddim. Os nad yw, gall gwasanaeth Gwybodaeth a Llyfrgell eich Ymddiriedolaeth helpu. [Gwasanaeth Llyfrgell GIG Cymru](#)

Dulliau

Mae pob adolygiad cwmpasu ystwyth yn dilyn methodoleg a strwythur eang, gydag amrywiadau bach yn unig yn ôl y cwestiwn a'r sylfaen dystiolaeth a nodwyd. Trwy drafod gyda'r rhanddeiliaid, datblygir cwestiwn ymchwil a meini prawf cynnwys/hepgor gan ddefnyddio fformat PICO/PECO (poblogaeth, ymyriad/amlygiad, cymharydd, canlyniad). **Sylwch: gofynnir i'r rhanddeiliaid nodi tystiolaeth/gwybodaeth y maen nhw eisoes wedi'u nodi.**

Fel y nodwyd uchod, mae'r fethodoleg a ddefnyddir wedi'i chynllunio i ddarparu gwybodaeth gyflym i'r rhanddeiliaid. Yn y cam cyntaf, mae cyfyngu'r chwiliad i ffynonellau o'r rhestr adnoddau tystiolaeth eilaidd yr ymddiriedir ynddynt yn lleihau'r amser a gymerir o ran cwmpas y chwiliad a thrwy hepgor yr angen am werthusiad beirniadol.

Mae'r strategaeth chwilio a ddatblygwyd wedi'i seilio ar y meini prawf cynnwys ac yn defnyddio geiriau allweddol. Mae'r cwmpas wedi'i gyfyngu i gynnwys tystiolaeth Saesneg yn unig a gellir gosod terfynau o ran y dyddiad cyhoeddi pan fydd canlyniadau'r chwiliad yn rhy fawr i'w rheoli mewn cyfnod byr, neu pan fo'r rhanddeiliad yn gofyn i waith gael ei gwblhau o fewn amserlen benodol. Yn ychwanegol, gall y gwledydd a gynhwysir gael eu cyfyngu yng ngham tri, yn enwedig lle mae cyffredinoli i gyddestun Cymru yn bryder arbennig.

Cedwir yr holl ganlyniadau chwilio a sgrinio ar gyfer adolygiadau systematig perthnasol mewn llyfrgell EndNote neu mewn system addas ar gyfer rheoli cyfeiriadau. Mae'r penderfyniad i gynnwys deunyddiau ar lefel y teitl a'r crynodeb yn

cael ei bwysu a'i fesur gan ddau adolygydd sy'n sgrinio'n annibynnol y 10% i 20% cyntaf o'r adolygiadau systematig ar gyfer perthnasedd, gyda'r gweddill yn cael eu sgrinio gan un adolygydd. Mae penderfyniadau sgrinio'r testun llawn yn cael eu gwneud gan ddau adolygydd. Mae data ar nodweddion yr astudiaethau a'r canfyddiadau sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn cael eu tynnu gan un adolygydd a'u gwirio gan ail adolygydd. Wedyn mae'r dystiolaeth yn cael ei chrynhai ar ffurf naratif i ateb cwestiynau'r rhanddeiliaid. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno ar fylchau yn y dystiolaeth yn y llenyddiaeth eilaidd.

Os na nodir unrhyw dystiolaeth, neu nodir tystiolaeth gyfyngedig, o'r rhestr o ffynonellau eilaidd y gellir ymddiried ynddynt, cynhelir chwiliad byr yn Medline gan ddefnyddio chwiliadau gydag allweddeiriau sylfaenol i ganfod budd cynnal chwiliadau pellach mewn ystod ehangach o gronfeydd data. Bydd crynodeb o'r canlyniadau chwilio (h.y. nifer, cynllun yr astudiaeth, perthnasedd ac ati) yn cael ei ddarparu yn y cwmpas ystwyth.

Canfyddiadau

Mae'r adroddiad cwmpasu ystwyth yn cynnwys crynodeb naratif a thabl data. Mae'r crynodeb naratif yn drosolwg bras o'r dystiolaeth a nodwyd, gyda ffocws penodol ar elfennau a amlygwyd fel rhai pwysig gan y rhanddeiliaid. Mae'r tablau data yn cynnwys y cyfeiriad (gyda hyperddolen), gwybodaeth am nodweddion a chanfyddiadau'r astudiaeth. Bydd yr wybodaeth yn y tablau data yn amrywio yn ôl y cwestiwn, y mathau o astudiaethau sydd wedi'u cynnwys a gofynion y rhanddeiliaid. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys adran sylwadau sy'n amlygu unrhyw elfennau o ddiddordeb arbennig i'r rhanddeiliaid ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau y dylid eu hystyried.

Mae'r adroddiad yn cloi gydag adran 'opsiynau ar gyfer gwaith pellach'. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u seilio ar y dystiolaeth a nodwyd ac yn rhoi sail resymegol benodol lle argymhellir gwaith pellach i adolygu'r dystiolaeth. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei llywio gan y chwiliad byr ychwanegol a gynhaliwyd yn Medline i helpu i asesu faint o wybodaeth ychwanegol sydd, a manteision tebygol cynnal gwaith ychwanegol. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu darparu i randdeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch beth i'w wneud nesaf.

Atodiad B: Atodiad Chwiliadau

Tabl 1: Yr adnoddau a chwiliwyd	
<p>Cochrane database of systematic reviews - https://www.cochranelibrary.com/cdsr/reviews</p> <p><i>Systematic reviews on health care interventions, diagnostics and public health interventions.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>NICE – https://www.nice.org.uk/guidance</p> <p><i>Guidelines of health care and public health topics. Note: you should be looking for systematic evidence reviews that may underpin guidance on your topic, not the guidance itself. Not all recommendations are based on evidence reviews.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>Joanna Briggs Institute - https://journals.lww.com/jbisrir/pages/advancedsearch.aspx</p> <p><i>This organisation’s journal, JBI Evidence Synthesis includes systematic and scoping reviews of both quantitative and qualitative evidence on healthcare and public health topics.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>1 result</p>
<p>Prospero – https://www.crd.york.ac.uk/prospero/</p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>National Institute for Health Research (NIHR) Public Health Research – https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/phr/about-the-phr-journal.htm</p> <p><i>Some reports in this journal are systematic reviews of interventions to improve public health.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>The Evidence for Policy and Practice Information and Co-ordinating Centre (EPPI-Centre) – http://eppi.ioe.ac.uk/cms/</p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>Campbell Collaboration systematic reviews - https://www.campbellcollaboration.org/better-evidence.html</p> <p><i>Systematic reviews of the effects of social interventions in Crime & Justice, Education, International Development, and Social Welfare.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>1 result</p>
<p>What Works Centre for Wellbeing – https://whatworkswellbeing.org/about-us/</p> <p><i>Systematic reviews of the impacts of policies and projects on wellbeing.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>What Works Clearinghouse (USA) – https://ies.ed.gov/ncee/wwc/</p> <p><i>Systematic reviews on what works in education.</i></p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>
<p>Early Intervention Foundation (EIF) – https://www.eif.org.uk/about</p>	<p>Date of search: 16/02/2024</p> <p>0 results</p>

<i>Systematic reviews about early interventions for tackling the root causes of social problems for children and young people.</i>	
What Works Centre for Local Economic Growth – https://whatworksgrowth.org/about-us/ <i>Systematic reviews on policies for local economic growth.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Health Technology Wales – https://healthtechnology.wales/ <i>Reports and guidance on use of medical devices, surgical procedures, psychological therapies, tele-monitoring or rehabilitation.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Health Technology Assessments (Ireland) – https://www.hiqa.ie/areas-work/health-technology-assessment <i>Health technology assessments on the clinical and cost-effectiveness of drugs, equipment, diagnostic techniques and public health activities.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
National Institute for Health Research Health (NIHR) Technology Assessment (HTA) Journal – https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/hta/about-the-hta-journal.htm <i>Some reports in this journal are systematic reviews of interventions to, prevent and treat disease and improve rehabilitation and long-term care.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Agency for Healthcare Research and Quality (AHRQ) Search Evidence-Based Reports Agency for Healthcare Research and Quality (ahrq.gov) <i>Effectiveness and comparative effectiveness reviews of health care interventions.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Canadian Agency for Drugs and Technologies (CADTH) – https://www.cadth.ca/evidence-bundles-view <i>Rapid response systematic reviews and meta-analyses of health technologies, including drugs and diagnostic tests, medical, dental and surgical devices and procedures.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Evidence Synthesis Program Reports (va.gov) – https://www.hsrdr.research.va.gov/publications/esp/reports.cfm <i>Evidence syntheses of health care interventions of particular relevance to veterans.</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Scottish Intercollegiate Guidelines Network (SIGN) clinical guidelines – https://www.sign.ac.uk/our-guidelines/ <i>Clinical practice guidelines. Note: you should be looking for systematic evidence reviews that may underpin guidance on your topic, not the guidance itself. Not all guidance is based on evidence reviews</i>	Date of search: 16/02/2024 0 results
Google Scholar – https://scholar.google.com/ <i>Search using your keywords AND “systematic review”</i>	Date of search: 23/02/2024 196 results
Epistemonikos - https://www.epistemonikos.org/	Date of search: 16/02/2024

<p><i>Search using keywords and select “systematic reviews” in the filter By Category menu in the results</i></p>	<p>0 results</p>
<p>Scopus - https://www.scopus.com/search/form.uri?zone=TopNavBar&origin=searchbasic&display=basic#basic</p> <p><i>Suitable for Social Science related topics</i> <i>Search using keywords and select “review” in the filter by document type in the results</i></p>	<p>Date of search: 23/02/2024</p> <p>152 results</p>
<p>Medline – https://www.scopus.com/search/form.uri?display=basic#basic</p> <p><i>Search using your keywords AND [Systematic Review]</i> <i>Suitable for clinical/health related topics</i></p>	<p>Date of search: 23/02/2024</p> <p>185 results</p>

Atodiad C: Echdynnu data

Tabl 2: Echdynnu data o'r astudiaethau eilaidd sydd wedi'u cynnwys (yn nhrefn yr wyddor)			
Cyfeiriad	Nod/Cwestiwn	Crynodeb	Sylwadau
